

**Parthed: Ymgynghoreion mewn perthynas â - Trefniadaeth Ysgolion Statudol - Cynnig i gau'r chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Gymunedol Aberdâr**

Annwyl Aelodau'r Cabinet,

Rwyf wedi cael fy nghyfarwyddo gan y Pwyllgor Craffu - Addysg a Chynhwysiant y Cyngor i gyfleu sylwadau'r Aelodau mewn perthynas â **Threfniadaeth Ysgolion Statudol – Cynnig i gau'r Chweched Dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Gymunedol Aberdâr**, ac i'r sylwadau gael eu cynnwys yn yr ymgynghoriad cyhoeddus cyn iddo gael ei ystyried gan y Cabinet yn ei gyfarfod.

Cafodd y Pwyllgor Craffu – Addysg a Chynhwysiant gyfle i weithredu fel ymgynghoreion ac fe roddon nhw eu hadborth a'u sylwadau mewn perthynas â'r cynnig yn ystod ei gyfarfod ar 10 Rhagfyr 2024. Cafodd Aelodau drafodaeth adeiladol mewn perthynas â'r adroddiad a gyflwynwyd gan y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant.

Mae modd bwrw golwg ar drafodaethau llawn y pwyllgor ar yr eitem hon [yma](#).

I grynhoi, cafodd y pwyntiau canlynol eu trafod mewn perthynas â Threfniadaeth Ysgolion Statudol - Cynnig i gau'r chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar a throsglwyddo disgyblion i Ysgol Gymunedol Aberdâr.

- Nododd Aelod fod yr adroddiad yn tynnu sylw at ddiffygion cyllid sylweddol yn Ysgol Gyfun Aberpennar ac Ysgol Gymunedol Aberdâr ar gyfer addysg Ôl-16 a gofynnodd am eglurhad ar sut y byddai'r cynnig yn arwain at ddarpariaeth Ôl-16 fwy cynaliadwy yn ariannol.
- Gofynnodd Aelod am eglurhad ynghylch sut y byddai'r Cyngor yn sicrhau hygyrchedd i ddisgyblion ag anableddau neu anghenion addysgol arbennig eraill.
- Dywedodd Aelod, o ran y cwricwlwm, er bod y cynnig yn ceisio ehangu mynediad i gwricwlwm ehangach, roedd pryder ynghylch effaith chweched dosbarth mwy, canolog, a sut y byddai hyn yn effeithio ar gyrsiau llai, mwy arbenigol sydd efallai ar gael yn Ysgol Gyfun Aberpennar, ond nid yn Ysgol Gymunedol Aberdâr, e.e. Peirianeg. Gofynnodd a fyddai'r cyfuniad yma'n cyfyngu ar ddewisiadau pynciau rhai disgyblion.

- Gofynnodd Aelod am eglurhad ynghylch pa strwythur cymorth e.e. cwnsela, cymorth academiaidd, ac ati, fyddai yn ei le ar gyfer y disgyblion blwyddyn 12 a 13 presennol yn ystod y cyfnod pontio, yn enwedig ar gyfer y rhai a fydd o bosibl yn cael anhawster wrth addasu i'r newidiadau.
- Roedd Aelod yn cydnabod, o'r data, ar y cyfan bu gostyngiad dramatig yn nifer y disgyblion, felly roedd pobl ifainc eisoes yn 'pleidleisio gyda'u traed'.
- Sylwodd Aelod mai Coleg y Cymoedd oedd y dewis arall a gofynnodd am eglurhad ynghylch capasiti ac a oedd gan bobl ifainc gyfleoedd i ymweld, fel bod gyda nhw ddewis gwirioneddol.
- Fe wnaeth Aelod gydnabod bod y ffigurau ar gyfer Ysgol Gyfun Aberpennar ac Ysgol Gymunedol Aberdâr wedi'u darparu yn yr adroddiad ond roedd yn teimlo y byddai'n gymharydd defnyddiol i weld faint o bobl ifainc oedd yn astudio Safon Uwch yn Ysgol Sant Ioan a gofynnodd i hyn gael ei gynnwys yn yr adroddiad terfynol i'r Cabinet.
- Gofynnodd Aelod hefyd i ffigurau cyrchfannau gael eu darparu yn yr adroddiad terfynol i'r Cabinet, ar gyfer cyd-destun, gan fod ganddi bryderon ynghylch cynaliadwyedd wrth symud ymlaen, ac roedd eisiau sicrwydd, drwy wneud y newidiadau, y byddai addysg chweched dosbarth yn yr ardal yn gynaliadwy ar draws dwy ysgol yn gweithio ar y cyd, yn hytrach na'r tair.
- Gofynnodd Aelod am sicrwydd bod ymgynghoreion priodol yn cael eu cynnwys yn yr ymgynghoriad, gan gynnwys RhAG (Rhieni dros Addysg Gymraeg), gan gydnabod y cyfle ar gyfer Trochi yn y Gymraeg, pe byddai'r cynnig yn mynd yn ei flaen.
- Gofynnodd Aelod am sicrwydd y byddai digon o leoedd parcio ychwanegol ar gael ar safle Ysgol Gymunedol Aberdâr i staff a allai drosglwyddo a bod digon o le ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol i ollwng y bobl ifainc.
- Fe wnaeth Aelod gydnabod bod Ysgol Gymunedol Aberdâr yn ysgol yr 21ain ganrif newydd a gofynnodd am sicrwydd bod digon o le yn y ffreutur ar gyfer disgyblion ychwanegol, ac na fyddai ciwio yn broblem.
- Gofynnodd Aelod am sicrwydd y byddai digon o le addysgu a gofod chweched dosbarth ar wahân i bobl ifainc dreulio amser gyda'u cyfoedion, e.e. ystafell gyffredin/mannau gweithio.
- Gofynnodd Aelod am eglurhad, pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, sut y byddai staffio'n cael ei reoli ar gyfer y disgyblion blwyddyn 13 sy'n astudio Safon Uwch yn Ysgol Gyfun Aberpennar ar hyn o bryd.
- Gofynnodd Aelod am eglurhad, fel y crybwyllwyd ar dudalen 29 o'r adroddiad, mewn perthynas â'r dyraniad cyllid fesul disgybl, gan nodi y byddai hyn yn newid.
- Mynegodd Aelod bryder ynghylch pa gamau oedd yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r ôl-groniad gwaith cynnal a chadw presennol o £1.4 miliwn a pha effaith y byddai hyn yn ei chael ar ddyfodol Ysgol Gyfun Aberpennar, gan gydnabod,

er bod yr adroddiad yn nodi y byddai Ysgol Gyfun Aberpennar yn parhau i ddarparu addysg uwchradd ar gyfer disgyblion, a oedd unrhyw gynlluniau i ddatblygu'r ysgol i wella ei hapêl, a'r ddarpariaeth addysg gyffredinol, gan gydnabod y byddai rhai rhieni o bosibl yn ystyried dechrau eu plant yn gynt yn Ysgol Gymunedol Aberdâr neu Ysgol Sant Ioan yn lle, pe na bai chweched dosbarth yno, gyda chlodiant o'r cartref i'r ysgol wedi'i warantu ar gyfer ysgolion fydd.

- Cododd Aelod bryderon ynghylch hyfywedd chweched dosbarth a'r cyfraddau gostyngol yn nosbarthiadau chweched dosbarth Rhondda Cynon Taf yn gyffredinol, gan gydnabod er bod y gyfradd genedigaethau yn gostwng, nid oedd yn gymesur, wrth gydnabod bod gan bobl ifainc ddewis.
- Nododd Aelod fod yr adroddiad yn sôn am y posibilrwydd o drosglwyddo staff i Ysgol Gymunedol Aberdâr, o Ysgol Gyfun Aberpennar, pe bai'r cyfle hwnnw ar gael, ond roedd yn teimlo ei bod yn bwysig i'r pwyllgor nodi y byddai llawer o athrawon yn dewis ysgol ar y sail bod chweched dosbarth ganddi, gan fod llawer o athrawon eisiau sicrhau eu bod yn cadw eu harbenigedd yn addysgu disgyblion lefel 3, a'i fod yn rhan bwysig o'u datblygiad proffesiynol parhaus.
- Gofynnodd Aelod, mewn perthynas â'r Cwricwlwm i Gymru, am eglurhad ynghylch y cynnig a gafodd ei gymeradwyo gan Cymwysterau Cymru ar lefel 3, a gofynnodd a oedd Swyddogion yn hyderus bod modd i ysgolion gynnig hyn ac a oedd hyder y byddai modd i Ysgol Gymunedol Aberdâr barhau i gynnig yr ystod honno petai'r disgyblion o Ysgol Gyfun Aberpennar yn trosglwyddo yno.
- Tynnodd Aelodau sylw at eu pryder a gofyn am eglurhad a sicrwydd ynghylch cludiant o'r cartref i'r ysgol, gan gynnwys y costau uwch posibl nad ydyn nhw'n hysbys ar y cam ymgynghori.

Yn gywir



**Christian Hanagan Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu**